Polisi Addysg Rhyw a Pherthnasedd

Ysgol Cwm y Glo

Cyflwyniad

Mae Ysgol Cwm y Glo yn cymryd rhan yng Nghynllun yr Ysgol Iach ac fel rhan o'i gwaith i ddatblygu Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn adolygu Addysg Rhyw a Pherthnasedd yng Nghyfnod Allweddol 1 a Cyfnod Allweddol 2.

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yn argymell y dylai pob ysgol gynradd weithredu rhaglen A.Rh.Ph. gan ddefnyddio fframwaith A.B.Ch. fel sylfaen (A.Rh.Ph. mewn ysgolion 2002).

Mae Ysgol Cwm y Glo wedi bod yn cyflwyno rhywfaint o A.Rh.Ph. i blant C.A.2 ers sawl blwyddyn. Yn sgil fframwaith newydd A.B.Ch. byddwn yn ymestyn rhai elfennau yng Nghyfnod Allweddol 2. Byddwn yn dechrau cyflwyno A.Rh.Ph. yng Nghyfnod Allweddol 1 er mwyn gosod sylfeini corfforol ac emosiynol.

Y Proses Ymgynghori

Y mae'r ysgol wedi ymgynghori gydag asiantaethau iechyd (Nyrs Ysgol, Gwasanaeth Hybu Iechyd) ac mae'r polisi'n seiliedig ar y cyngor a dderbyniwyd a chanllawiau C.C.C ac A.C.A.C.

Rydym yn ymgynghori â rhieni'r ysgol trwy gynnal noson weithgaredd A.Rh.Ph. i sicrhau ein bod wedi rhoi cyfle i rieni ystyried y cynlluniau a mynegi barn.

Hawliau rhieni i eithrio eu plant:

Mae gan rhieni'r hawl i eithrio eu plant o'r cyfan neu rannau o'r hyn a gyflwynir iddynt, ag eithrio'r elfennau hynny sy'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Os oes gan riant bryder mae croeso iddo ddod i'r ysgol i drafod gyda'r athrawes.

Pwrpas ac amcanion Addysg Rhyw yn yr Ysgol Gynradd*:*

- Dysgu am gylch bywyd
- I gadw'n yn ddiogel trwy eu helpu i adnabod ac ymateb i ymddygiad annerbyniol gan oedolion a phlant eraill
- I helpu'r plant i ddod yn ymwybodol o wahanol sefyllfaoedd bywyd gan bwysleisio pwysigrwydd moesoldeb.
- I helpu'r plant siarad am faterion sy'n ymwneudi a'r corff a pherthnasedd heb embaras.
- I ddarparu gwybodaeth am:
    - berthynas gariadus
    - enwau rhannau'r corff
    - gyffyrddiad addas ac anaddas
    - y broses atgenhedlu
    - newidiadau'r glasoed
    - tyfiant y baban yn y groth a genedigaeth
    - anghenion babanod a chyfrifoldebau rhieni

- Cychwyn paratoi'r plant am y penderfyniadau y byddant yn eu gwneud yn y dyfodol, a'r profiadau maent yn debyg o wynebu
- I helpu'r plant i addasu i newidiadau yn y teulu
- I helpu'r plant i ddeall eu teimladau nhw eu hunain a theimladau pobl eraill
- Dysgu'r plant i barchu eu hunain ac eraill

Trefniadaeth a Chyflenwi'r Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasedd yn yr Ysgol:

Cyflwynir Addysg Rhyw i ddisgyblion trwy:

- gyfnodau Amser Cylch
- trwy bynciau penodol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol
- trwy sesiynau gyflwynir gan asiantaethau allanol (nyrs ysgol)
- groesawu mamau i ddod i siarad â phlant am anghenion babanod

Bydd y nyrs ysgol yn cyflwyno rhaglen Addysg Rhyw a Pherthnasedd ym mlwyddyn 6.

Arfer dda mewn rhaglenni addysgu:

Mae'r Ysgol yn adnabod y rhai canlynol fel ymarfer dda a bydd staff yn eu mabwysiadu fel egwyddorion sylfaenol i raglenni A. Rh.Ph.

- Athrawon hyderus sydd wedi derbyn hyfforddiant addas
- ymgynghori â disgyblion
- ymgynghori â rhieni
- Technegau ymbellhau
- Technegau dysgu anffurfiol/ymarferol
- Gwaith Grŵp
- Mewnbwn gan nyrs ysgol ac eraill
- Creu partneriaeth rhwng Asiantaeth Addysg Rhyw a Pherthnasedd
- Athrawon yn sicrhau nad yw eu daliadau personol yn dylanwadu ar y rhaglen
- Canllawiau clir ar finiau a chyfrinachedd
- Bocs Cwestiynau

Canllawiau ar faterion penodol ymwelwyr ac asiantaethau sy'n cyfrannu at Addysg Rhyw a Pherthnasedd:

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod unrhyw ymwelwyr proffesiynol ac ymwelwyr o'r gymuned sy'n cyfrannu at raglenni A.B.Ch. yn ymwybodol o'r polisi hwn ac yn cytuno i'w ddilyn.

- Bydd staff yn trafod cyfraniadau cyn i'r ymwelwyr wneud cyflwyniadau i'r plant i sicrhau eu bod yn addas ac yn gweddu gyda ethos yr ysgol.
- Cyfrinachedd (gweler isod)

Cyfrinachedd

Dylid nodi na all athrawon gynnig cyfrinachedd di amod. Os ydy'r plant yn datgelu eu bod yn cael eu cam-drin neu yn ddweud rhywbeth sy'n achosi'r athro/athrawes i feddwl eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin rhaid dilyn canllawiau amddiffyn plant.

Bydd y staff yn trafod cyfrinachedd gyda'r plant a sicrhau bod nhw'n ymwybodol o ffiniau cyfrinachedd.

Wrth drafod cytundeb dosbarth gofynnir i'r plant hyn i beidio â thrafod cynhwysion y gwersi gyda phlant iau. Hefyd byddwn yn annog y plant i beidio â gofyn cwestiynau personol a byddwn yn dweud wrth y disgyblion na fydd athrawon yn gofyn cwestiynau personol iddyn nhw.

Nid ydym eisiau rhoi'r neges bod rhyw yn rhywbeth cywilyddus. Bydd disgyblion yn cael eu hannog i drafod y dosbarthiadau addysg rhyw gyda'u rhieni/gofalwyr.

Ateb cwestiynau:

Bydd staff yn ceisio ateb cwestiynau cyffredinol y plant yn onest wrth ystyried oedran ac aeddfedrwydd y plentyn/plant.

Bydd staff yn defnyddio blwch holi sy'n rhoi cyfle i blant ofyn cwestiynau'n ddi enw ac i'r athrawon ystyried y cwestiynau cyn ymateb.
Os ydy plentyn yn gofyn cwestiwn am werthoedd bydd athrawon yn cyfeirio'r plentyn at ei deulu a cheisio osgoi rhoi ei safbwynt eu hun fel yr unig un cywir.

Os yw'r athrawes yn methu ateb, anogir y plant i siarad gyda'r rhieni.

Arwyddwyd: _____

Dyddiad: _____